



Amcan Llesiant 12

Amgylchedd Iach a Diogel - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol

Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn.

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/Targed
A	Rhoi sylw i ofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a monitro'r gwaith o gyflwyno Blaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd CCC [IM2] Byddwn yn cynghori'r Awdurdod cyfan a'n partneriaid ynghylch yr angen sydd arnom i fodloni gofynion amgylcheddol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Cafodd Blaen-gynllun yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin ei gymeradwyo gan Fwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin ym mis Mawrth 2017, a chaiff y cynnydd o ran ei gyflawni ei fonitro gan ddefnyddio'r System Monitro Perfformiad a Gwella	
1	Drwy fonitro gweithrediad Blaen-gynllun y Cyngor, byddwn yn cyflwyno tystiolaeth ynghylch sut mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyflawni ei Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), gan adrodd ar y canlyniadau a geir i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn cyflwyno tystiolaeth am gysylltiadau rhwng y gwaith hwn a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.	Mai 2020
2	Byddwn yn parhau i gyflawni prosiect Britheg y Gors Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau Mynydd Mawr, sy'n ceisio sicrhau bod o leiaf 100 hectar o gynefin Britheg y Gors yn cael eu rheoli'n barhaus.	Hydref 2021
3	Byddwn yn gweithredu strategaeth goed i wella'r amgylchedd ac i liniaru effeithiau llygredd aer a sŵn yn ein hardaloedd mwyaf poblog. MF5-23 Bydd y polisi yn mynd i'r afael ag effeithiau posibl gwywiad yr onnen. Bydd cyswllt rhwng y strategaeth hon a Gweithdrefn Rheoli Coed Gymeradwy y Cyngor, a fydd yn berthnasol yn bennaf i goed ar dir sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin neu a reolir ganddo, ond a allai fod yr un mor berthnasol i dir arall e.e. tir a reolir gan aelodau eraill o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynghorau Tref a Chymuned. Bydd y cam gweithredu hwn yn gwella ac yn cynnal ein gofodau naturiol ac adeiledig. Bydd hefyd eisiau mynd i'r afael ag effeithiau posibl gwywiad yr onnen dros y flynyddoedd nesaf.	Mawrth 2020
4	Byddwn yn gweithredu argymhellion adolygiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch cynnal a chadw Perthi ac Ymylon Priffyrdd.	Mawrth 2020
B	Sicrhau, wrth weithredu gwasanaethau cynllunio ar draws y Sir , ac yn enwedig yr agweddau amrywiol ar Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, ein bod yn dangos ein bod yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd o fewn y Ddeddf.	
1	Byddwn yn adolygu Polisi Adeiladau Gwledig y Cyngor. MF5-22 Bydd polisiâu yn y CDLI sy'n ymwneud ag aildefnyddio adeiladau gwledig, ynghyd â chanllawiau cynllunio atodol perthnasol, yn cael eu hadolygu os bydd angen fel rhan o broses adolygu'r CDLI. Gall aildefnyddio'r adeiladau hyn mewn modd priodol gyfrannu at yr economi gyloch a lleihau'r gwastraff a grëir a'r galw am ddeunyddiau adeiladu gwell.	Rhag 2019
2	Byddwn yn gweithredu ac yn monitro'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn unol â'r gofynion statudol a chynnwys y Fframwaith Monitro a Gweithredu cytunedig.	Mawrth 2020
3	Byddwn yn parhau i baratoi CDLI diwygiedig yn unol â'r darpariaethau statudol. Yn amodol ar y broses wleidyddol a'r ffocws yn ystod 2019/20 fydd yr Ymgynghoriad Adneuo. MF5-20 Bydd y cynnydd mewn perthynas ag amserlen y CDLI Diwygiedig yn cael ei fonitro ddwywaith y flwyddyn.	Mawrth 2020

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/Targed
4	Byddwn yn parhau i gweithredu Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer Canol Tref Llanelli, fel rhan o ymagwedd strategol gydgyssylltiedig at adfywio yng nghanol y dref.	Mawrth 2020
5	Byddwn yn parhau i fonitro, a, lle bo'n briodol, reoli'r defnydd o arian a godwyd drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr, gan gynnwys cytundebau adran 106. O ganlyniad byddwn yn sicrhau y defnyddir arian yn briodol a bod defnydd effeithlon a di-oed yn cael ei wneud o gronfeydd. MF5-21	Mawrth 2020
6	Byddwn yn datblygu a gweithredu cynllun cynhwysfawr i ddefnyddio'n llawn asedau'r tŷ a'r parc ym Mharc Howard gyda'r nod o'i wneud yn lleoliad ar gyfer gwobr y Faner Werdd ac yn ystyried mannau eraill yn y sir allai elwa ar fod yn lleoliad y Faner Werdd. MF5-19	Mawrth 2021
7	Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i wella capasiti carthffosiaeth yn y Sir drwy ddatblygu cynlluniau priodol. Sicrhau bod gwelliannau cynlluniedig sy'n rhan o'r rhaglen yn cael eu dylunio a'u gweithredu i fynd i'r afael â materion o ran capasiti. Mynd i'r afael â'r cyflenwad dŵr yn ogystal. MF5-24	Mawrth 2020
8	Bydd yr Is-adran Gynllunio yn datblygu ymagwedd gyson o ran sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella, a bod cydnerthedd ecosystemau yn cael ei hyrwyddo, fel rhan o'r system gynllunio, a hefyd yn ei weithgareddau Cadwraeth, Mwynau a Rheoli Adeiladu.	Mawrth 2020
9	% yr holl geisiadau cynllunio y penderfynir arnynt mewn pryd (PAM/018) (Canlyniad 2018/19 - 72.5%)	75%
10	% yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd (PAM/019) (Canlyniad 2018/19 - 71.4%)	70%
C	Byddwn yn parhau i weithredu a hyrwyddo cynnydd yn y defnydd o ynni adnewyddadwy a dod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030.	
1	Byddwn yn lleihau'r defnydd o ynni (kWh) / allyriadau carbon (tunelli) ym mhorthffolio adeiladau annomestig presennol y Cyngor. MF5-13	Mawrth 2021
2	Byddwn yn clustnodi ac yn cyflawni prosiectau effeithlonrwydd ynni yn adeiladau presennol, annomestig y Cyngor.	Mawrth 2021
3	Byddwn yn cyfrannu at raglen Bergen Ddinesig Bae Abertawe i ddatblygu 'Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer' i helpu i greu cartrefi cynaliadwy a fforddiadwy a mynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith ein trigolion drwy ddatblygu cartrefi newydd â thechnolegau arloesol. MF5-46 (rhan)	Rhag 2019
4	Byddwn yn datblygu cynllun clir ar gyfer llwybr tuag at fod yn ddi-garbon net o fewn 12 mis. (Fel y nodir yn y Rhybudd o Gynnig yng nghyfarfod y Cyngor Sir - Chwefror 2019)	Mawrth 2020
D	Byddwn yn amddiffyn ein hamgylchedd a'n heiddo drwy ddarparu ein Cynllun Rheoli Llifogydd a Gwastraff; ac yn amddiffyn a rheoli ein harfordir drwy gyflawni Cynllun Rheoli'r Traethlin.	
1	Byddwn yn cyhoeddi'r Cynllun Rheoli'r Perygl o Llifogydd ac yn cychwyn ei rhoi ar waith fel rhan o'r strategaeth ar gyfer nodi, rheoli a lliniaru'r perygl o lifogydd yn ein cymunedau.	Mawrth 2020
E	Byddwn yn gweithredu camau o'r 'strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff', er mwyn bod yn genedl sy'n ailgylchu llawer erbyn 2025 ac yn genedl ddiwastraff erbyn 2050.	
1	Byddwn yn parhau i adolygu ein hopsiynau o ran strategaeth trin gwastraff a'r anghenion o ran seilwaith ailgylchu, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau i gyrraedd ein targedau ailgylchu statudol a thargedau dargyfeirio o safleoedd tirlenwi o fis Ebrill 2019 ymlaen. MF5-16	Mawrth 2021

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/Targed
2	Gweithio gyda rhanddeiliaid lleol i dreialu trefniadau rheoli sbwriel ledled Llanelli, gan roi sylw penodol i ganol y dref a'r ffyrdd sy'n arwain ato, gyda'r bwriad o gyflwyno'r trefniadau ar draws y sir. MF5-18	Mawrth 2020
3	Byddwn yn parhau i weithio gyda CWM Environmental i adolygu ein trefniadau trin/gwaredu gwastraff yn y tymor byr drwy sicrhau trefniadau priodol ar gyfer trin a gwaredu ein gwastraff.	Mawrth 2020
4	Byddwn yn parhau i adolygu'r cyfraddau presennol ar gyfer ailgylchu gwastraff y cartref er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o wastraff yn cael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi ac er mwyn cynyddu ailgylchu. Cynnal rhaglen o ddrws i ddrws er mwyn cynghori ac annog trigolion i fod yn rhan o'n cynlluniau ailgylchu.	Mawrth 2020
5	Byddwn yn ymchwilio i'r bartneriaeth bosibl â chwmnïau trydydd sector cymunedol lleol er mwyn gwella perfformiad gwasanaeth gwastraff swmpus ac aildddefnyddio y Cyngor.	Mawrth 2020
6	Byddwn yn cynnal arolwg bodlonrwydd y cyhoedd i asesu barn y cyhoedd am wasanaethau presennol. Byddwn hefyd yn asesu'r awydd i newid y gwasanaethau yn y dyfodol i wella perfformiad ailgylchu Sir Gaerfyrddin.	Mawrth 2020
7	Byddwn yn parhau i dargedu materion sy'n ymwneud ag ansawdd yr amgylchedd lleol, gan gynnwys baw cŵn, tipio anghyfreithlon a malltod sbwriel yn gyffredinol. Adolygu effeithiolrwydd y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus.	Mawrth 2020
8	Byddwn yn parhau i aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio canran uchel o wastraff (PAM/030). Targed wedi'i bennu i gyrraedd targedau gwastraff cenedlaethol (Canlyniad 2018/19 - 58.94%)	64%
9	Byddwn yn lleihau'r gwastraff trefol nad yw'n cael ei aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn ystod y flwyddyn fesul person (PAM/043) (Canlyniad 2018/19 – 179.7Kg)	168Kg
10	Byddwn yn lleihau'r nifer gyfartalog o ddiwrnodau gweithio mae'n cymryd i glirio achosion o dipio anghyfreithlon (PAM/035) (Canlyniad 2018/19 – 2.3 o ddiwrnodau)	2.5 diwrnod
11	Byddwn yn cynnal lefel uchel o strydoedd yn lân (PAM/010) (Canlyniad 2018/19 - 91.5%)	92%
12	Byddwn yn sicrhau bod glendid ein priffyrdd ar sail Archwiliadau Mynegai Glendid Cadwch Gymru'n Daclus yn parhau'n uchel (STS/005a) (Canlyniad 2018/19 – 75.7%)	71%

Mesur Llwyddiant Ychwanegol
Cyfraddau ailgylchu (PAM/030)
Defnydd o ynni adnewyddadwy